

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**Medi 6ed, 2016**

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, , Karl Jones, Alwyn Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1611 Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i Rhys Owen, Parc Cenedlaethol Eryri.
- 1612 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda
- 1613 Cyflwynodd Rhys Owen, Parc Cenedlaethol Eryri, syniadau agoriadol am brosiect yn ymwneud â defnydd tir ardaloedd mawnog yn Eryri, gyda ffocws arbennig ar yr hen arferiad o dorri mawn. Cytunodd y Cyngor i anfon llythyr i gefnogi'r prosiect diddorol hwn a fydd yn cynnwys pobl ifanc o'r gymuned hon. Fe fydd yn gyfle da i dderbyn gwybodaeth am draddodiad sydd yn parhau yn fyw yng nghof rhai ardalwyr, i ddysgu am hanes, cymdeithaseg, technoleg ac agweddau gwyddonol a daearegol. Bydd cyfle i gofnodi termau ac enwau traddodiadol, a chreu dehongliad gweladwy. Byddai hanesion a lluniau ac offer traddodiadol yn gyfraniad gwerthfawr i'r prosiect, ac mae Cyngorwyr Cymuned Llanuwchllyn yn barod iawn i gydweithredu trwy rannu'r neges a derbyn unrhyw luniau ac yn y blaen. Diolchwyd i Rhys Owen am ei gyflwyniad.
- 1614 Gohiriwyd ymweliad gan Swyddogion yr Heddlu tan y cyfarfod nesaf.
- 1615 Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym mater 1623, sef adroddiad ar waith Partneriaeth Penllyn a Chwmni Pum Plwy Penllyn cyf.
- 1616 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 5ed 2016.
- 1617 Materion gweithredu'r Clerc o gyfarfod Gorffennaf:
- i. Diogelwch tu allan i'r neuadd: cytunodd Karl Jones ac Alan Jones Evans i wneud ymchwiliad pellach i'r posibilrwydd o osod arwyddion sy'n fflachio er mwyn gwella diogelwch wrth y neuadd bentref.  
Adroddodd Alan Jones Evans fod Llywodraethwyr Ysgol O M Edwards yn trafod y posibilrwydd o leoli'r Ysgol Feithrin ar gampws yr ysgol gynradd. Mae'r Ysgol Feithrin hefyd yn gwyntyllu'r mater. Mae cynsail i bartneriaeth fel hyn mewn sawl ardal yng Ngwynedd.
  - ii. Hysbysfwrdd y Cyngor – mae'r gwaith uwchraddio mewn llaw.
  - iii. Sedd wag ar y Cyngor – cytunwyd i arddangos hysbyseb yn gwahodd etholwyr i fynegi eu diddordeb yn y sedd wag trwy gysylltu gyda'r Clerc erbyn 20/9/16. Bydd enwau yn dod gerbron y Cyngor yng nghyfarfod Hydref.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

- iv. Trefniadau cofio milwyr a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf – diolchwyd i'r Parchedig Carwyn Siddall am ei holl waith gyda threfniadau'r gwasanaeth ar 8/9/16, sef can mlynedd union wedi marw Robert John Evans, Cefn Rhos, o'i glwyfau. Fe'i claddwyd yn y fynwent newydd ac mae croes wen ar ei fedd.

### 1618 Adroddiad y Cynghorydd Sir :

Soniodd Alan Jones Evans am yr her o ddarparu gofal priodol i boblogaeth sy'n gynyddol heneiddio yng Ngwynedd ar adeg pan fo'r grant canolog yn lleihau. Mae sawl enghraifft o lwyddiant yng Ngwynedd, megis cartrefi gofal ychwanegol fel Awel y Coleg yn Y Bala, a chydweithio arloesol rhwng asiantaethau yn yr Alltwen, Tremadog, gyda'r unigolyn yn ganolog i unrhyw raglen gofal.

### 1619 Trefniadau Noson Goffi'r Cyngor:

Cynhelir y Noson Goffi am 7.00 ar nos Wener 21/10/16 a chytunodd Arwel Lloyd Jones i arwain. Mae aelodau Sefydliad y Merched a Merched y Wawr unwaith eto wedi cytuno i gydweithio i baratoi'r ymborth. Disgwylir cynulleidfa niferus o blant ac o bobl hŷn yn y Neuadd Bentref gan y bydd Paul Edwards, Consuriwr, yn diddanu. Cyfrannodd pob Cynghorydd a Swyddog tuag at y costau a rhannwyd tocynnau i'w gwerthu am £5 yr un (plant wrth y drws). Bydd yr elw yn mynd tuag at Apêl Ambiwlans Awyr.

### 1620 Materion Eiddo'r Cyngor:

Llochesi bws - mae gwaith uwchraddio'r lloches wrth Gapel Peniel wedi ei gwblhau a bydd gwaith yn cael ei wneud ar un y Lôn yn fuan. Cytunodd Alan Jones Evans i holi unwaith eto am y broblem o ddŵr yno pan fo tywydd garw, er bod cyfrifoldeb am y gefnffordd wedi symud i Lywodraeth Cymru erbyn hyn.

Wal y Fynwent – cytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod is-bwyllgor y fynwent ar 19/9/16 ynghyd a'r parcio dyddiol yno.

Cytunwyd i ddiolch i Mr Iorwerth Evans am ei garedigrwydd blynyddol yn darparu blodau wrth fynedfa maes parcio'r fynwent.

### 1621 Materion ariannol:

Cadarnhawyd ac arwyddwyd Archebion :

Hysbyseb yn y Cyfnod  
Archeb Staples  
Archeb Cynhadledd SLCC

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: hysbyseb yn Y Cyfnod, cynrychiolydd i gynhadledd SLCC yn Llandudno (rhannu efo Cyngor Tref Y Bala) a Chymdeithas y Cymod (Pabi gwynion)

Derbyniwyd ail hanner taliad y Praesept.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

Cytunwyd i edrych eto ar sut i hwyluso'r drefn gyda materion ariannol tra ar yr un pryd cadw o fewn gofynion y Cyfrifwyr.

### 1622 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Camfa Efail Fain ym Mhenantlliw - adroddodd Alan Jones Evans fod y mater mewn llaw.

Cau ffordd Cynllwyd - derbyniwyd ymateb i gwynion am y rhybudd byr a ddaeth i law adeg Gŵyl y Banc parthed cau ffordd Cynllwyd i gyflawni gwaith trwsio. Nid oedd contractwr ar ran Dŵr Cymru wedi cysylltu â'r trigolion ac roedd anniddigrwydd fod y llythyr safonol o Gyngor Gwynedd ddim yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol. Mynegwyd yr angen i fod yn ymwybodol o oblygiadau difrifol o gau ffordd mewn ardal sydd yn gwbl ddibynnol ar yr unig ffordd sydd ar gael. Cytunodd y Clerc i anfon at Dŵr Cymru ac at Gyngor Gwynedd i fynegi anfodlonrwydd y trigolion a'r Cyngor Cymuned.

### 1623 Partneriaeth Penllyn:

Cytunwyd i arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.

Cyflwynodd Huw Antur grynoded o saith mlynedd o gydweithio rhwng cyngorau Penllyn ym Mhartneriaeth Penllyn. Mae'r Bartneriaeth wedi gwneud cais i Arloesi Gwynedd Wledig am gefnogaeth i greu cynllun busnes i ddatblygu maes gweithgaredd y Bartneriaeth. Soniodd hefyd am ffurfio Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf er mwyn ceisio am grantiau i ddatblygu adnoddau ar gyfer yr ardal, a sut y bu i hyn alluogi datblygu'r Henblas.

### 1624 Gohebiaeth:

#### 1. Parc Cenedlaethol Eryri:

Cytunodd Alan Jones Evans i gwblhau'r asesiad o Fannau Agored o fewn y Gymuned.

Cytunodd Dewi Jones i roi ystyriaeth i Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri

Cytunwyd i arddangos posteri "Galwad am ddarpar safleoedd " i sylw tiffeddianwyr

#### 2 Gwynedd:

Ystyriwyd cais am benderfyniad ar finiau halen a chytunwyd i ateb trwy ddweud fod Partneriaeth Penllyn yn parhau mewn trafodaeth ar ein rhan gyda'r Deilydd Portffolio. Cytunodd Alan Jones Evans hefyd i drafod ymhellach.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

### 2. Un Llais Cymru:

Nodwyd derbyn y cynigion i'r Gynhadledd Cenedlaethol.

Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant a chytunwyd i drafod yr hyfforddiant ar "Deall y Gyfraith 30/11/16 yn Y Bala yn y cyfarfod nesaf

Derbyniwyd gwybodaeth am y Cyfarfod Ardal nesaf

Trafodwyd themâu ar gyfer yr Awdit nesaf a chytunwyd i gynnal cyfarfod o'r is-bwyllgor Cyllid ym mis Hydref.

### 3. Eraill:

Nodwyd derbyn gwybodaeth am hyfforddiant ar sut i ymateb i geisiadau cynllunio.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Hydref 4ydd yn y Neuadd Bentref

*Amser gorffen: 10.00pm*